

CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar y 23ain o Fai 2018 am 7.30 yr hwyr yng Nghanolfan Gwytherin.

Croeso ac Ymddiheuriadau: Dim ymddiheuriadau:

Yn bresennol: Gwyn Williams (Cadeirydd) Diane Roberts, Emlyn Williams, Gwynfor Davies, Ann Vaughan, Elen Edwards, Clwyd Roberts, Einir Williams,

Cynghorydd Sir - Garffild Lloyd Lewis.

Cytunodd Garffild i gofnodi'r cyfarfod yn absenoldeb y Clerc.

Datgan Diddordeb: Ann Vaughan Eitem Rhif 9

Eglurodd y Cadeirydd fod cyflwyniad yn nes ymlaen yn yr agenda gan Swyddog Lles Cymunedol Cyngor Sir Conwy, ond gan fod Meirion Owen wedi cyrraedd yn gynnar, y byddai'n briodol i newid yr agenda a dechrau gyda'r cyflwyniad.

Cyflwyniad Meirion Owen – prif bwyntiau:

- Y bydd yn gweithio yn agos hefo cymunedau gwledig a threfol, i drefnu gweithgareddau i bobl sydd adre yn diode o salwch, neu yn byw eu hunain ayb.
- Y cyllid wedi ei rannu rhwng Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Chyngor Conwy
- Y nod ydi plethu gwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Hefyd yn gweithio hefo elusennau i gefnogi cymunedau a chynnig cymorth i unigolion bregus
- Fis nesa fe fydd swyddog newydd ar gyfer mudiadau gwirfoddol – i gydlynnu gwaith y mudiadau a chreu chyfleoedd newydd i gael mwy o wirfoddolwyr a threfnu hyfforddiant iddyn nhw.
- Bydd Meirion yn cynnal awdit o beth sydd yn yr ardal yn barod, pa weithgareddau sydd yma, faint o waith gwirfoddol, beth sydd angen ei hyrwyddo, helpu dysgu sgiliau newydd ayb
- Soniodd am holiadur i'w chwblhau gan bobol leol er mwyn ceisio mesur anghenion yr ardal – beth ydi'r rhwystrau, sut gefnogaeth sydd ei angen?
- Nododd bod gwefan benodol 'Dewis'.

Roedd trafodaeth ar ddiwed y cyflwyniad:

Gwyn: Wedi ymweld ag elusen 'Menshed' ym Mae Colwyn ac am nodi'r gwaith da sy'n cael ei wneud yno, a lles mawr a chymorth i ddioddefwyr.

Elen: Yn awyddus i weithio hefo Meirion er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion a gwastraffu amser. Nododd hefyd fod gofalgwyr hefyd angen cymorth a chefnogaeth

Ann: Nodi ei bod yn broblem yn yr ardaloedd gwledig i gael swyddogion a gwirfoddolwyr i'r rhan fwyaf o fudiadau a chyrff ar hyn o bryd.

Einir: Yr un bobol, yr un enwau sydd yn gefn i'r cymunedau ac yn gwneud popeth.

Meirion: Bydd yn bosib cynnig help i wirfoddolwyr, trefnu hyfforddiant a bydd adborth i'r holiaduron maes o law yn dangos beth fydd yr anghenion.

Diolchwyd i Meirion am y cyflwyniad.

Agenda:

Cofnodion Ebrill 25ain – Materion yn codi:

Einir: Ar bwynt 7.3, dim wedi ei wneud hyd yma o ran creu hysbyseb am swydd y Clerc, yn cynnwys y cyflog newydd. Nododd hefyd fod camgymeriad bach ynglyn a'r cyflog yn £10 a bod angen dilyn rheolau NALC a gosod lefel o £10.10

Emlyn: Cytunodd Emlyn i drefnu hysbyseb swydd y Clerc yn y Gadlas, yr Odyn a Pentan. Gwaith 8 awr am £10.10 yr awr.

Elen: Nododd Elen y bydd cyfarfod Clercod Cynghorau yn Glasdir ddechrau Mehefin a bydd mater prinder clercod yn cael ei drafod yno hefyd.

Clwyd: Nodi fod cwynion wedi eu derbyn am gamfa a llwybr Twlc, a soniodd fod Vicky(?) wedi dweud bod modd cael giatiau a deunydd gan y Cyngor Sir. Anghen giat mochyn fydd yn cau ei hun. Cytunodd Clwyd i gysylltu hefo Vicky i ofyn am ganiatad i gario mlaen hefo'r gwaith.

Ann: Rhif 19 yr Ardd Goffa. Angen gwaith tacluso ac adnewyddu'r Ardd (GL wedi cysylltu hefo'r Cyngor Sir yn barod i nodi hyn), a dwedodd Gwyn fod problem debyg yng Ngwytherin.

Nodwyd fod y cofnodion yn gywir. (Clwyd yn cynnig, Emlyn yn eilio)

Ffyrdd ac Amgylchedd:

Bydd y ffordd yng nghanol Llangernyw a chanol Gwytherin yn cau cyn hir i osod pibellau dwr.

Ceisiadau Cynllunio:

6.1 Tan y Fron, Pentre Isa. (Clwyd wedi ei ddarllen – dim sylwadau pellach)

6.2 Holwyd os oedd bosib gweld ceisiadau cynllunio ar y We? Os hynny ydi'n werth cyfarfod yn Llangernyw bob tro gan fod cysylltedd Broadband yno? Ar ol

trafodaeth, penderfynwyd cadw at y drefn arferol o amrywio cyfarfodydd, onibai bod amgylchiadau arbennig.

Cyfarfod Un Llais Cymru

Adroddiad Diane ar lafar – prif bwyntiau:

- Mae templad Cynllun Iaith ar gael i unrhyw fudiad sydd am newid neu addasu eu cynlluniau Iaith
- Adolygiad wedi ei gynnal i waith cynghorau Cymuned a Threfol a bydd drafft cynta'r adolygiad yn cael ei gyhoeddi'n fuan
- Lwfan cynghorwyr Cymuned a Threfol yn codi I £150 a mater I'r unigolion fydd derbyn neu beidio. (Cynigiodd Elen roi y mater ar yr agenda i'w drafod yn y cyfarfod Cyngor nesaf.) Nododd Einir fod y mater ar yr agenda hon hefyd.
- Diogelu Data – roedd Diane wedi bwriadu mynd ar y cwrs ond dim lle y troy ma. Wedi gofyn am ddyddiadau newydd ac yn disgwyl ateb gan Un Llais Cymru. (Gwynfor am sicrhau nad oedd y Cyngor wedi talu am gwrs Diane)
- NALC wedi cyhoeddi dogfen ar y We yn cyfeirio at waith Cynghorau Cymuned (parthed Diogelu Data) ee bod angen cyfrinair i gyfrifiadur y Cyngor. Cytunwyd i drefnu hyn.
- Archwilwyr Mewnol yn disgwyl bod cyfeiriadau Ebost pob cynghorydd Cymuned a Threfol ar wefannau y cynghorau. (Eglurodd Elen bod angen cael caniatad os am angen deunydd i fforymau a chyrrff allanol, ond ddim yn broblem os ydio yn ymwneud a gwaith)
- Roedd David Allen o Heddlu'r gogledd wedi gwneud cyflwyniad i Un Llais, a roedd wedi cyfeirio at nifer o broblemau cefn gwlad – cwn yn rhedeg yn rhydd, cwn yn lladd defaid, 'badger baiting', problemau llygredd a slyri, dwyn anifeiliaid ayb. Arfer Da Heddlu'r Gogledd mewn materion cefn gwlad yn cael eu canmol ledled Cymru.

Toiledau Llangernyw:

Cyngor Cymuned – dyled o £500 i Gronfa Bro Cernyw. Cytuno i dalu.

Panel Cydnabyddiaeth Ariannol:

Cafwyd trafodaeth am yr hawl i dderbyn cydnabyddiaeth o £150 Ar y cyfan roedd pawb yn erbyn derbyn y gydnabyddiaeth. Cynnig Ann i beidio derbyn yn cael ei eilio gan Einir a chytunyd yn unfrydol (8 aelod). Roedd dau aelod yn absennol, ac fe fydd ganddyn nhw yr hawl I dderbyn os ydyn nhw'n dymuno.

Swydd y Clerc:

Fe gododd Emlyn mater anrheg i gydnabod gwaith Elwen. Wedi tarfodaeth cytunwyd i anelu i drefnu anrheg erbyn mis Medi.

10.1 Ol-daliadau. Roedd Elwen wedi anfon nodyn ffurfiol yn gofyn am yr arian sy'n ddyledus iddi a chostau.

10.2 Gwynfor angen checio pa gydnabyddiaeth yr oedd Elwen wedi ei dderbyn yn barod. Diane yn cadarnhau fod Elwen wedi derbyn £350 18.01.2016, ac yna 14.12.2016. Cytunwyd i dalu £350 arall, o'r grinfa yn 2018.

10.3 Roedd y Cyngor wedi derbyn nodyn ymddiswyddiad gan Elwen 10/01/18. Cafodd yr ymddiswyddiad ei dderbyn yn ffurfiol yn unfrydol. Einir yn mynd i anfon spreadsheet Iona hefo'r ffigyrau diweddaraf.

Nodwyd bod angen newid y mandad Banc cyn gynted a phosib.

Elen: Am wybod pwy sydd yn gweinyddu Cronfa Bro Cernyw gan fod Elwen yn rhoi'r gorau iddi. Am y tro, bydd ffurflenni ceisiadau yn dod i'r Cyngor Cymuned.

Diane: Dim bil wedi dod am aelodaeth Un Llais Cymru hyd yma ac mae wedi Ebstio yn gofyn am 'accrual' i'r fantolen am y tro, hyd nes y bydd taliad wedi ei wneud.

Mantolen:

Fe eglurodd Diane y fantolen – nodi fod rhai pethau heb fynd drwy'r cyfrif banc hyd yma, felly mae rhai colofnau yn dangos gor wario mewn rhai meysydd, a than wariant mewn eraill. Fe gyflwynir mantolen ffurfiol yn y cyfarfod nesaf, fydd yn cynnwys taliad Elwen ac 'accruas' Un Llais.

Gwynfor angen checio os oes unrhyw sieciau wedi eu harwyddo o dan yr hen fandad Banc a chytunodd Diane bod angen i'r Banc ei hun checio dyddiadadau ar sieciau.

Derbyniwyd y fantolen.

Cyfansoddiad Cronfa Bro Cernyw:

Ann: Wedi cael cwestiynau gan drigolion yn gofyn sut mae'r arian yn cael ei ddostrannu a'i wario, ac yn gofyn am yngor sut y dylai ateb?

Clwyd: Mater syml – angen i bobl wneud cais ffurfiol ar ffurflen bwrpasol

Gwynfor: Ddim cymaint o bobl yn gwneud ceisiadau y dyddiau yma

Gwyn: Angen atgoffa pawb mai cyfraniad mae bobl yn ei dderbyn – nid grantiau llawn

Diane: Nodi bod cyfansoddiad yn bodoli ac wedi ei ddiwygio rhai blynyddoedd yn ol, a bod y rheiny yn cynnwys meini prawf er mwyn bod yn deg ac yn atebol.

Ann: Cynnig y dylid neilltuo noson i edrych eto ar y cyfansoddiad. Cytunodd Gwynfor i edrych ar y canllawiau a'r cyfansoddiad er mwyn bod yn glir ar yr amodau.

Clwyd: Gofyn am gopi o'r cyfansoddiad ar Ebost er mwyn i bawb ei ddarllen cyn y cyfarfod nesaf.

Cynllun Iaith:

Diane wedi son yn barod bod templad Cynllun Iaith newydd ar gael.

Ann: Angen sesiwn yr un pryd a'r cyfarfod ar y cyfansoddiad i addasu'r Cynllun Iaith hefyd.

Diane: Angen diwygio ac adneyddu'r holl bolisiau rhyw ben.

Biniau Baw Ci Llangernyw:

Nododd Ann fod angen rhagor o finiau baw ci yn y pentref. Dywedodd Garffild ei fod wedi bod yn llythyru a'r Cyngor ar ran trigolion Gwytherin ers misoedd er mwyn ceisio cael biniau yno, ond mae problem hefo costau'r biniau a chostau casglu'r cynnwys. Cytunodd Ann i sgwennu i'r Cyngor i wneud cais.

Conwy Cynhaliol:

Cafwyd trafodaeth ynglyn a'r lleoliadau gorau o gwmpas y pentref i osod dodfren allan. Os ydyn nhw i'w cael am ddim, yna fe ddylid gofyn amdanyn nhw – ond bosib y bydd costau i'w gosod. Hyn yn gyfle i gael dodrefn i'r 3 pentref. Einir yn mynd i holi ymhellach am y cynllun a bydd angen i aelodau drafod ymhellach a rhestru lleoliadau posib, a'r mathau gwahanol o ddodfren.

Ann: Cynnig gofyn am 2 fainc – falle i'r Ardd Goffa.

Sgipiau Cymunedol:

Ann: adrodd hanes y lori na gyrhaeddodd oherwydd problemau mecynaddol. Roedd gweithwyr wedi cyrraedd i dacluso, a dyddiadau newydd wedi eu trefnu ar gyfer y 3 pentre.

Byrddau Hysbysebu:

Nodwyd bod angen tacluso ac ail-staenio y bwrdd ger y safle Bws. Cynigiodd Emlyn geisio cael pris yn lleol am wneud y gwaith. Ond Clwyd yn cynnig trefnu bod hysbysfwrddau y tri pentref yn cael eu staenio.

Nodwyd hefyd bod yr arhosfan Bws ar waelod Allt Cefn Coch angen ei baentio a'i dacluso. Gofynnwyd i Garffild gysylltu a'r Cyngor Sir i wneud y gwaith.

Gweithdrefnau'r Cyngor:

Diane: Yn gysylltiedig a'r Archwiliad Ariannol, bod angen rhoi wybodaeth ariannol ar hysbysfwrdd y pentrefi, hefyd angen cyfrifon i'r archwilwyr a rhoi rhybydd cyhoeddus.

Cyfarfod Blynyddol. Bydd y cyfarfod nesaf hefyd yn Gyfarfod Blynyddol a chytunwyd hefyd i wahodd siaradwr yno i drafod cynllun dodrefn Conwy Cynaladwy.

Einir: Pwysleisio bod angen gweithdrefnau cadarn, gosod dyddiadau o flaen llaw.

Ann: Cynnig bod angen 'spreadsheet' am y flwyddyn yn nodi prif ddyddiadau cyfarfodydd a phrif bwyntiau y flwyddyn i ddod.

Gohebiaeth:

Amgylchedd Llangernyw – Llundiau Merched y Wawr wedi bod yn casglu sbwriel

PCSO – hysbysu bod swyddog Heddlu Cymunedol yn Llanrwst. Gwyn i drefnu ei bod yn dod i'r Cyngor I gyflwyno ei hun a son am ei gwaith.

Templadau GDPR Diogelu Data i'w cwblhau – ac angen hyfforddiant.

Biliau:

Diane: Yswiriant y Cyngor angen ei dalu £348

Cytunwyd I dalu, ond eglurodd Gwynfor nad oedd yn gallu gwneud hynny heb fod wedi newid mandad y Banc. Cytunodd Diane i gysylltu gyda'r cwmni yswiriant i egluro'r broblem.

Bil cyfieithu – cytuno I'w dalu ar ol I'r mandad gael ei setlo. Cyfanswm £293.95

Materion Lleol:

Gwynfor: tyllau yn y ffordd rhwng Wenlli a Pantyrhedyn. Garffild i gysylltu a'r Cyngor Sir

Gwyn: Ffordd gefn ger Singrig – tyllau yn y ffordd a'r ffordd wedi dechrau suddo. Garffild i gysylltu a'r Cyngor Sir

Ann: Gwobr pentrefi Conwy. Wedi cofrestru a bydd y beirniadu fis Mehefin. Hefyd angen trefnu cylchlythyr 2018-06-18

Emlyn: Golau stryd ger Tan y Bryn angen ei drwsio. Garffild i gysylltu a'r Cyngor Sir

Bin sbwriel wrth giat y fynwent heb ei gasglu. Garffild i gysylltu a'r Cyngor Sir

Dyddiad alleoliad y cyfarfod nesaf:

Cyfarfod Cyngor a Chyfarfod Blynyddol

27 Mehefin

Canolfan Pandy Tudur

Derbynwyd yn Gywir –

Arwyddo Dyddiad